# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 - y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 16 Mai 2013** |
| Amser: | **09: - 13:00** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_300000_16_05_2013&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Darren Millar (Cadeirydd)**<br>**Mohammad Asghar (Oscar) AC**<br>**Mike Hedges**<br>**Julie Morgan**<br>**Jenny Rathbone**<br>**Aled Roberts**<br>**Jocelyn Davies** |
| Tystion: | **Gareth Jones, Llywodraeth Cymru**<br>**Jo Larner, Llywodraeth Cymru**<br>**Dr Emyr Roberts, Cyfoeth Naturiol Cymru**<br>**Tim England, Cyfoeth Naturiol Cymru**<br>**Richard Penn, Caldicot and Wentlooge Levels IDB**<br>**Dr Jean Venables, Association of Drainage Authorities**<br>**Dean Jackson Johns, Former Clerk, Caldicot and Wentlooge IDB** |
| Staff y Pwyllgor: | **Tom Jackson (Clerc)**<br>**Daniel Collier (Dirprwy Glerc)**<br>**Joanest Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau ac aelodau'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Sandy Mewies AC.

## 2 Materion sy'n codi o ganfyddiadau adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru 'Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg'

**Llywodraeth Cymru**

2.1 Croesawodd y Cadeirydd Gareth Jones, Cyfarwyddwr Cyffredinol Dyfodol Cynaliadwy, Llywodraeth Cymru; a Jo Larner, Pennaeth Rheoli Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol, Llywodraeth Cymru.

2.2 Craffodd y Pwyllgor ar waith y tystion.

**Camau gweithredu:**

2.3 Cytunodd Llywodraeth Cymru i ddarparu:

- nodyn ynghylch a wnaeth DEFRA ymgynghori â Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu'r rheolau sefydlog enghreifftiol (a gafodd eu cyhoeddi yn 2005)
- nodyn ynghylch pwy ymatebodd i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ddiwygiad posibl y Byrddau Draenio Mewnol.

**Cyfoeth Naturiol Cymru**

2.4 Croesawodd y Cadeirydd y tystion Dr Emyr Roberts, Cyfarwyddwr Cyfoeth Naturiol Cymru; a Tim England, Rheolwr Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol - Ardal y De-ddwyrain, Cyfoeth Naturiol Cymru.

2.5 Craffodd y Pwyllgor ar waith y tystion.

**Cam gweithredu:**

2.6 Cytunodd Cyfoeth Naturiol Cymru i ddarparu:

- nodyn ynghylch a gafodd trefniadau ariannu ardal Gwent eu hailbrisio a'u hailwerthuso ar ôl adroddiad gan DEFRA yn 2006

**Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg a Chymdeithas yr Awdurdodau Draenio**

2.7 Croesawodd y Cadeirydd Richard Penn, Rheolwr Cyffredinol Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg; a Dr Jean Venables, Prif Weithredwr Cymdeithas yr Awdurdodau Draenio.

2.8 Craffodd y Pwyllgor ar waith y tystion.

**Cam gweithredu:**

2.9 Cytunodd y Rheolwr Cyffredinol i ddarparu:

- copi o Reolau Sefydlog presennol a chymeradwy'r Bwrdd Draenio gyda'r sicrwydd y byddent yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Bwrdd.

2.10 Cytunodd y Cynghorydd Cyfreithiol i'r Pwyllgor i ddarparu rhagor o wybodaeth ar gymhwysedd cyfreithiol Gweinidogion Cymru mewn perthynas ag Awdurdodau Draenio.

**Cyn Glerc a Pheiriannydd Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg**

2.11 Croesawodd y Cadeirydd Dean Jackson-Johns, Cyn Glerc a Pheiriannydd Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg

2.12 Holodd y Pwyllgor y tyst.

**Cam gweithredu:**

2.13 Cytunodd Dean Jackson-Johns i ddarparu:

- fersiwn electronig o'r papur a ddarparodd i'r Pwyllgor yn y cyfarfod.

## 3 Papurau i'w nodi

3.1 Nododd y Pwyllgor ohebiaeth gan Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda yn ymateb i gam gweithredu o gyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a gynhaliwyd ar 23 Ebrill 2013.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

Eitem 5

**TRAWSGRIFIAD**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 5 Ystyried tystiolaeth ar Fwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg

5.1 Trafododd Aelodau'r dystiolaeth a gafwyd yn ystod y cyfarfod.